



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI

Dyddiad ac Amser

6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 20FED MAWRTH, 2018

Lleoliad

**Ystafell Bwyllgor, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53
5AA**

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(DISTRIBUTED 13/03/18)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Cynghorydd Dylan Bullard
Cynghorydd Peter Read
Cynghorydd Hefin Underwood

Aelod Lleol
Aelod Lleol Abererch
Aelod Lleol

Aelodau Cyfetholedig:

Ifor Hughes

Stephen Tudor
David Dewsbury

Wil Partington

Andrew Picken
Cynghorydd Mici Plwm
Alwyn Roberts

Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r
Cylch
Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli a Plas Heli
Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan
Pwllheli
Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr
Morwrol Pwllheli
Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli
Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli

Sylwedyddion:

Cynghorydd Ioan Thomas
David Williams
Cynghorydd Rob Triggs
Dr John Jones-Morris

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2017, fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

9 - 37

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

6. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

38 - 40

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 16 Hydref 2018.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 17/10/17

Presennol: Y Cyngorydd Hefin Underwood (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Peter Read (is-gadeirydd)

Y Cyngorydd Dylan Bullard (Cyngor Gwynedd); ynghyd â David Bayly (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), Ifor Hughes (Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch), Cyngorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli), Alwyn Roberts (Sefydliad y Bâd Achub) a Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli a Phlas Heli).

Hefyd yn bresennol: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Erail a wahoddwyd: Alan Williams (Coastal Engineering UK Ltd)

Ymddiheuriadau: David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol) a'r Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi).

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Hefin Underwood yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Peter Read yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. MATER BRYS

Cyfeiriodd aelod at yr angen i gynnal cyfarfod i drafod cyflwr safle'r hen Glwb Hwyllo. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod angen edrych ar Benrhyn Glandon yn ei gyfanrwydd ond roedd angen rhoi ystyriaeth os oedd Penrhyn Glandon o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y byddai'r gwasanaeth yn hapus i gynnal cyfarfod i drafod y mater.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a Phlas Heli nad oedd cwynion wedi eu cyfeirio at Plas Heli o ran cyflwr safle'r hen Glwb Hwyllo. Nododd pryder am gyflwr maes parcio traeth Glandon a bod Plas Heli yn barod i fod yn rhan o drafodaethau o ran gwella'r safle.

5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2017, fel rhai cywir.

6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned at y Strategaeth Garthu gan nodi y comisiynwyd Alan Williams (Coastal Engineering UK Ltd) ar y cyd efo Ymgynghoriaeth Gwynedd i edrych ar yr opsiynau o ran cryfhau'r Crib Groyne a lleihau'r gwaddod yno.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Alan Williams yn manylu ar ei waith yn asesu ac adolygu'r Crib Groyne. Tynnodd sylw at 4 opsiwn posibl ac amcangyfrif o'r gost ynghlwm sef:

1. Y lefel isaf o gynnal a chadw'r strwythur presennol (£10-15,000);
2. Cynnal a chadw lefel uwch ac adfer y strwythur presennol (£35-40,000);
3. Estyniad fertigol / amgylchynu'r strwythur presennol gan ddefnyddio cyfuniad o (a) gwaith dur crib neu (b) stanciau dalennau ac arfwisg carreg (£125-135,000 (a) neu £225-240,000 (b)); neu
4. Amgylchynu'r strwythur presennol mewn arfwisg carreg (£140-150,000).

Amlygodd yr ystyriaethau canlynol o ran yr opsiynau:

- Nid oes angen llawer o ymyrraeth i wireddu opsiynau 1 a 2 ond byddent ond yn cynnig ychydig o welliant mewn perfformiad o gymharu ag amodau presennol;
- Bydd opsiynau 3 a 4, oherwydd codiad yn y lefel a gwell chadarnder ac uniondeb, yn lleihau trosglwyddo a symud dros y strwythur; fodd bynnag
- Dros gyfnod o ddeng mlynedd, byddai'n debygol y byddai gwerth presennol costau'r opsiynau hyn yn uwch na'r drefn barhaus o garthu a chael gwared arno; ac
- Opsiynau 1, 2 a 4 oedd y mwyaf hyblyg o ran y gallu i addasu i drefniadau'r dyfodol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau a gofyn cwestiynau i'r ymgynghorydd, ymatebodd iddynt fel a ganlyn:

- O ran cynyddu hyd y Crib Groyne, nad oedd cynyddu hyd y Crib Groyne yn rhan o'i ffriff a byddai'n rhaid gwneud gwaith manylach o ran modelu, asesu'r effaith ac ystyriaethau amgylcheddol. Nododd bod angen gwneud gwaith yn y tymor byr;
- Yn bosib rhoi ystyriaeth i symud y 'trailing arm' mwy i'r chwith pan asesir opsiynau tymor hir;
- Bod defnyddio arfwisg carreg trwm neu strwythurau concriid *pre-fab* i atgyfnerthu yn hytrach na strwythur dur ynghyd a symud y 'trailing arm' fel ei fod yn mynd i mewn i ddŵr dyfn, yn rhywbeth oedd i'w ystyried wrth edrych ar opsiynau tymor hir;
- Cytuno mai dim ond atal y sefyllfa rhag dirywio am gyfnod byddai opsiwn 3 ond yn ei gyflwyno gan nid oedd eisiau ei ddiystyru fel opsiwn posib;
- Bod byrdwn ariannol cynnal a chadw blynyddol felly bod angen astudiaeth o'r opsiynau tymor hir o ran y Crib Groyne gan ystyried efallai symud cyfeiriad y fraich arall.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y gwasanaeth yn awyddus i weithredu ar ddatrysiad tymor byr yn y misoedd nesaf. Ychwanegodd y byddai datrysiad tymor hir yn broses 2-3 blynedd felly roedd yn rhaid gweithredu ar ddatrysiad tymor byr na fyddai'n cyfyngu ar yr opsiynau posib ar gyfer y tymor hir.

Nododd Cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli y dylid ystyried efallai cynyddu hyd y Crib Groyne yn raddol er mwyn gweld faint o hyd y gellir ei ennill heb gymhlethu'r broses gan asesu os oedd yn effeithiol.

Nododd y Cadeirydd bod angen gwneud rhywbeth yn y tymor byr ac yna ystyried yr opsiynau tymor hir.

Cynigwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd symud ymlaen efo Opsiwn 4 sef cryfhau'r strwythur presennol gan ei amgylchynu efo arfwisg carreg. Eiliwyd y cynnig.

PENDERFYNWYD gofyn i Gyngor Gwynedd symud ymlaen efo Opsiwn 4 sef cryfhau'r strwythur presennol gan ei amgylchynu efo arfwisg carreg.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y cylchredir copi o adroddiad yr ymgynghorydd i'r aelodau er mwyn iddynt allu rhoi sylwadau o fewn 3 wythnos. Cadarnhaodd y byddai'r gwasanaeth yn symud ymlaen yn unol â'r hyn a ddymunai'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ymgynghorydd am ei gyflwyniad.

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y Swyddog Cefnogi Aelodau wedi gohebu gyda phob cynrychiolydd mudiadau'r harbwr yn atgoffa o'r gofyn i'r mudiadau enwebu cynrychiolydd am y flwyddyn i ddod gan hefyd anfon copi o'r cyfansoddiad a chofnodion o gyfarfod blynyddol y grwpiau perthnasol. Nododd y derbyniwyd y wybodaeth angenrheidiol gan Gymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli, Cyngor Tref Pwllheli a Sefydliad y Bâd Achub. Gofynnodd i'r rhai nad oedd wedi ymateb eisoes i anfon y wybodaeth at y Swyddog Cefnogi Aelodau yn yr wythnosau nesaf.
- Bod 60 cwch ar angorfa flynyddol yn yr Harbwr allanol yn 2017 o gymharu gyda 58 yn 2016.
- Cadarnhaodd bod 306 cwch ar angorfa pontŵn blynyddol yn yr Hafan yn 2017 o gymharu gyda 287 cwch a fu ar angorfa pontŵn yn 2016. Roedd y cynnydd yn galonogol ac fe dybir bod y newid i godi ffioedd ar drefniant Uchafswm Hyd Cwch (LOA) wedi helpu a gobeithir y bydd cynnydd mewn niferoedd o flwyddyn i flwyddyn.
- Bod Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth wedi cyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd ym mis Tachwedd 2016. Roedd copïau o'r cod newydd wedi ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol gyda chopi hefyd ar gael ar wefan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau.
- Cynhaliodd archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau arolygiad trylwyr o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd rhwng y 19eg a'r 21ain o Fedi 2017. Barn gychwynol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi Deiliwr Dyletswydd. Fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli yn ystod yr archwiliad. O ran Pwllheli, gwnaed sylw gan yr archwilwyr bod y Sianel yn gul pan oedd y llif allan.
- Disgwylir derbyn adroddiad ysgrifenedig drafft yr wythnos ganlynol. Eglurodd bod gan y Cyngor gyfnod penodol i addasu trefniadau ac fe fyddai Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r gwasanaeth oddi fewn 12 mis o gyflwyno'r adroddiad ble bydd disgwyl bod argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi eu gweithredu. Nododd y byddai'n cylchredeg copi o'r adroddiad terfynol i'r aelodau.
- Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr cytunwyd mewn egwyddor byddai'n fuddiol bod dyddiad yr ail ymweliad yn cyd-fynd a dyddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr. Awgrymwyd i'r archwilwyr byddai'n fuddiol bod yr archwilwyr yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod ym mis Hydref 2018.
- Cafwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 2il Awst 2017, nid oedd unrhyw fater yn codi.
- Hyd yma roedd tri adroddiad wedi ei gyflwyno at sylw MAIB (Marine Accident Investigation Branch) yn adrodd ar ddigwyddiadau yn ymwneud a chychod yng Ngwynedd. Roedd 1 digwyddiad yn adrodd ar gwch a gafodd ei daflu wyneb i waered tu fewn i ardal awdurdodedig harbwr Pwllheli. Roedd cwch pŵer yn teithio o gyfeiriad Abersoch i Bwllheli a hyn ar gyflymder diogel a phriodol pan gafodd y cwch ei droi trosodd gan don. Ni achoswyd unrhyw anaf i'r morwyr ac fe gafodd y cwch ei hadfer gan griw'r Bad Achub.

- Bod y gwasanaeth yn ystyried gwelliannau i'r cyfarpar a gwasanaeth tanwydd. Ymchwilir i alluogi cwsmeriaid i dderbyn a thalu am danwydd drwy beiriannau hunan wasanaeth. Pe byddai'n bosibl cyflwyno'r gwasanaeth yna golygai byddai cwsmeriaid yn gallu derbyn tanwydd drwy ddefnyddio cyfarpar hunan wasanaeth tu allan i'r oriau 09.00 - 17.00. Cyn y byddai'n bosibl cadarnhau trefniadau hunan wasanaeth byddai angen i'r gwasanaeth ystyried sut y gellir sicrhau bod defnyddwyr yn cydymffurfio gyda gofynion cyflwyno datganiadau disel coch. Roedd hyn yn gysylltiedig â phrosesu a chasglu taliadau tollau ychwanegol yn ymwneud â gwerthu disel coch a defnyddir gan gychod at bwrpas tramwyo gyda chwch. Mawr obeithir na fydd yna unrhyw rwystrau gweinyddol yn amharu ar welliant gwasanaeth i'r cwsmer.
- Cwblhawyd gwaith carthu ceg yr harbwr yn ystod y gwanwyn ac yn dilyn y gwaith carthu fe gwblhawyd gwaith pellach ar lefelu wyneb y sianel er ceisio sicrhau fod cysondeb yn lefel gwely'r sianel fordwyo.
- Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth argymhellir fod ffioedd Harbwr a Hafan Pwllheli yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Pwysleisiodd mai drafft yn unig a gyflwynwyd yn y rhaglen, a bod y ffioedd yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad gan Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi a fe'u cadarnheir yn y cyfarfod nesaf.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig pwysigrwydd sicrhau fod pob cwch pŵer a Bad Dwr Personol a oedd yn defnyddio llithrfa'r Hafan wedi cofrestru ac yn arddangos yr hawlen cofrestru ar y cwch. Ni ddylai unrhyw gwch lansio yn yr harbwr oni bai fod yn arddangos yr hawlen cofrestru. Roedd angen sicrhau fod cwmnïau Parcio a Lansio yn cydymffurfio gyda'r gofynion hyn.

Nododd Cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch bod rhai unigolion yn defnyddio'r llithrfa ben bore ac yn dychwelyd yn hwyr er mwyn osgoi talu a chofrestru. Ychwanegodd bod symud swyddfa'r Harbwr Feistr wedi cael effaith ac na allai busnesau fod yno trwy'r adeg.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y cyfleuster Teledu Cylch Cyfyng wedi ei wella. Roedd yn anymarferol i'r swyddogion edrych ar yr oriau o fideo, felly gofynnir i unigolion gysylltu efo'r gwasanaeth yn fuan yn dilyn unrhyw achos penodol.

Nododd aelod bod unigolion hefyd yn lansio lle nad ydynt i fod. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod cwch newydd yn yr harbwr a fyddai o gymorth i wneud mwy o waith patrolio. Ychwanegodd bod mwy o adnodd staffio gyda staff yr Hafan, ar hyn o bryd fe edrychir ar swydd ddisgrifiadau staff a rhagwelir gwelliant yn y sefyllfa yn 2018.

Mewn ymateb i sylw gan gynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'r gwasanaeth yn darparu rhaffau a ffender iddo a bod gofyn iddo gysylltu gyda Rheolwr yr Harbwr i drefnu hyn.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a Phlas Heli bod angen edrych ar garthu o fewn yr Hafan. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod arolwg hydrograffeg wedi ei gynnal ar y basn, bwriedir asesu'r arolwg cyn penderfynu ar y camau a gymerir. Ychwanegodd yr ystyrir gwagio'r *stilling lagoon*. Mewn ymateb i sylw gan Gynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub parthed gwaredu'r deunydd yn lleol, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd lleoliad yn y bae efo'r drwydded briodol.

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at dywydd eithafol y noson gynt o ganlyniad i gyn storm Ophelia. Nododd Rheolwr Harbwr Pwllheli o ystyried y tywydd eithafol yr unig ddifrod oedd un hwyl wedi chwythu allan.

Nododd Cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli bod staff Morwrol a Pharciau Gwledig wedi gweithio'n galed y diwrnod/noson honno a gofynnodd i ddiolchiadau'r deiliaid cychod gael ei drosglwyddo i'r staff. Ychwanegodd nad oedd unrhyw gwynion ystyrllon wedi eu cyflwyno gan aelodau'r gymdeithas y flwyddyn yma.

Rhannwyd copi o grynodedb cyllidebol terfynol 2016-17 a diweddariad ar gyllideb 2017-18 hyd at ddiwedd Medi 2017 yr Harbwr a'r Hafan yn y cyfarfod. Manylwyd ar eu cynnwys a nodwyd bod y sefyllfa gyllidebol yn well yn y flwyddyn gyfredol a gobeithir y cyrhaeddir y targedau.

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at faes parcio traeth Glandon gan nodi y byddai arwyneb y maes parcio yn derbyn sylw cyn diwedd mis Hydref. Fe fu i'r tyllau a oedd wedi ymddangos ar wyneb y maes parcio ger y fynedfa gael eu llenwi ar ddechrau'r tymor. Eglurodd oherwydd prysurdeb y safle a'r nifer o gerbydau a oedd yn defnyddio'r maes parcio fe fyddai'r gwasanaeth yn ystyried trefniadau amgen er ceisio lleihau'r difrod a achosir i arwyneb y safle.

Nododd Cynrychiolydd Cyngor Tref Pwllheli bod cyflwr y maes parcio angen sylw gyda'r tyllau yn yr arwyneb yn beryglus i bobl hŷn.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a Phlas Heli bod y mater yn destun sgwrs i staff Plas Heli yn ddyddiol a'i fod yn eu tynnu i lawr.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fe edrychir am ddatrasiad hirdymor i'r sefyllfa.

Derbyniwyd diweddariad gan Gynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a Phlas Heli ar ddigwyddiadau ym Mhlas Heli. Nododd y cynhaliwyd un gystadleuaeth Byd ac un gystadleuaeth Brydeinig yn ystod 2017. Ychwanegodd y cynhelir cystadleuaeth Optimus yn 2018 a bod paratodau ar gyfer cystadleuaeth yn 2021 yn mynd yn eu blaen.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

7. ETHOL SYLWEDYDDION

Adroddwyd bod angen ethol sylwedydd/ion i wasanaethu ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read i wasanaethu fel sylwedydd ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.

8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 20 Mawrth, 2018.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.55pm

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
DYDDIAD	20 Mawrth 2018
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr
AWDUR	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

1. Cod Diogelwch Porthladdoedd

- 1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' ac sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan staff harbyrau y Gwasanaeth. Mae yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol dydd i ddydd yn Harbwr Pwllheli.
- 1.2 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a hyn yn adolygiad o drefniadau a sustemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd.
- 1.3 Yn dilyn adolygiad gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 mae'r Gwasanaeth wedi derbyn adroddiad yn dilyn yr archwiliad gan yr arbenigwr allanol. Mae copi o'r adroddiad yn atodol ac fe fydd y Gwasanaeth yn gweithredu ar argymhellion yr archwilwyr yn ystod y misoedd nesaf. Croesawir sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.
- 1.4 Fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref, barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi pwy yw Daliwr Dyletswydd a'r Person Dynodedig. Rhagwelir bydd angen trafod hyn ymhellach oddi fewn y Cyngor a rhagwelir bydd cyfrifoldeb Daliwr Dyletswydd yn trosglwyddo i Gabinet y Cyngor maes o law.
- 1.5 Parthed y Person Dynodedig mae'r Cyngor wedi derbyn cefnogaeth gan Gyngor Conwy a'r Person Dynodedig ar gyfer Harbyrau Gwynedd bydd Harbwr Feistr Conwy. Mae yn hanfodol na fod y Person Dynodedig gyda chysylltiad â'r Cyngor neu'r Awdurdod Harbwr fel gallasai fod yn hollol annibynnol.
- 1.6 Yn ystod yr ymweliad fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog (canolfan y gwaith archwilio) a Phwllheli. Ni fu iddynt ymweld ag Abermaw oherwydd cyfyngiadau mewn amser.
- 1.7 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion neu drefniadau diogelwch difrifol; safon neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd gan yr archwilwyr fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Mae yn anorfod fod y materion hyn wedi eu gweithredu arnynt gan staff y Gwasanaeth yn ystod misoedd y gaeaf. Cyflwynwyd sylwadau ynglŷn â diffyg lled y sianel fordwyo yn harbwr Pwllheli er ni ragwelir fod hyn yn fater a fyddai yn dechnegol oddi fewn trefn yr archwiliad. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau am faterion diogelwch yn harbwr Porthmadog.

- 1.8 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbysrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol
- 1.9 Fe fydd archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r Cyngor yn ystod yr Hydref nesaf. Y bwriad yw bod dilyniant i'r adolygiad yn cael ei gynnal ar ddyddiad ble cynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ble gwahoddir aelodau o holl Bwyllgorau Ymgynghorol Harbysrau Gwynedd i'r cyfarfod er derbyn cyflwyniad gan yr archwilwyr ar faterion sydd yn gysylltiedig â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Fe fydd hyn hefyd yn gyfle i Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol i holi'r arbenigwyr ar faterion yn ymwneud a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd ac i'r Archwilwyr gadarnhau cyfrifoldebau am gynnwys a gweithrediad y Cod Diogelwch.

2. Materion Gweithredol

- 2.1.1 **Strategaeth Garthu** - Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth mae cwmni allanol wedi cynnal archwiliad hydrograffic o'r harbwr. Cwblhawyd yr archwiliad ar yr 8fed Fawrth 2018. Mae hyn yn cynnwys arolwg hydrograffeg llawn o'r sianel fordwyo; ceg yr harbwr mewnol; basn y marina gan gynnwys basn angorfeydd pontŵn Plas Heli. Rhagwelir bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno at sylw'r Gwasanaeth cyn diwedd mis Mawrth ble bydd yn fwrriad dosbarthu'r wybodaeth gydag Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol.
- 2.1.2 Fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd mae'r gwasanaeth wedi cyfarwyddo'r cwmni i gwblhau'r gwaith ac i gyflwyno'r wybodaeth ganlynol: -
- Cynnal arolwg hydrograffic llawn o'r harbwr
 - Cyflwyno'r wybodaeth hydrograffeg ar gynllun manwl ar siartiau ble mae dyfnder dwr yn cael ei arddangos mewn 'Orance Datum' a 'Chart Datum'
 - Cyflwyno gwybodaeth yn dangos cynnydd/leihad yn y llaid mewn cymhariaeth ar arolwg hydrograffic diwethaf yn ardal ceg yr harbwr, yn y sianel fordwyo, ym mhrif fasn angorfeydd pontŵn yr Hafan; ym masn angorfeydd pontŵn Plas Heli. Bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i adnabod y gwaith carthu bydd angen ei gwblhau yn ystod misoedd y gaeaf 2018/19 gan ragwelir bydd angen cynnal gwaith carthu yn y basn oherwydd cynnydd yn lefel y llaid.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi comisiynu Uned Yngynghoriaeth Gwynedd i gwblhau'r canlynol: -

- Cynnal arolwg topograffig o'r bwnd carthu presennol gan adnabod y capasiti sydd yn weddill oddi fewn y bwnd. Mae capasiti'r bwnd pan yn wag yn 20,000 m³.
- Cynnal arolwg topograffig o'r ardal cafodd ei ddefnyddio ar gyfer derbyn llaid pan garthwyd basn angorfeydd pontŵn Plas Heli.
- Bydd adnabod capasiti y ddau safle uchod yn galluogi'r gwasanaeth i adnabod a fydd yn ochelgar i wagio'r bwnd carthu gan wasgaru'r llaid sych yn yr ardal a

ddefnyddiwyd ar gyfer gwaredu llaid basn Plas Heli. Byddai hyn yn sicrhau fod capasiti y bwnd carthu ar ei uchafswm.

- Comisiynu gwaith dylunio manwl Grwyn y Crud. Mae'r gwasanaeth wedi cyfarwyddo bod y gwaith dylunio manwl Grwyn y Crud yn cyd-fynd ac Opsiwn 3 o'r adroddiad a baratowyd ar ran y Cyngor yn 2017 gan 'Coastal Engineering UK Cyf' ble rhoddwyd cyflwyniad ar yr opsiynau bosibl ger bron y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr ym mis Hydref 2017. Bydd y gwaith dylunio manwl yn sicrhau bod uchder y Grwyn Crud yn codi 1.8 metr i'w gymharu â'r uchder presennol a bod pwysau'r cerrig a ddefnyddir oddi fewn y crud yn cynyddu i fod yn pwyso rhwng 1 tunnell a 4 tunnell yn hytrach na'r cerrig presennol sydd yn pwyso 1 tunnell hyd at 1.5 tunnell fel y defnyddiwyd yn y strwythur gwreiddiol. Yn dilyn gwyntoedd cryf a stormydd yn y môr dros fisoedd y gaeaf mae difrod pellach wedi ei achosi i'r grwyn.
- Er byddai yn fwy dymunol ymestyn Grwyn y Crud ymhellach at gyfeiriad y môr nid oes hawl gan y Cyngor oddi fewn y Ddeddf Harbwr i ymgymryd â'r gwaith hwn heb dderbyn Trwydded Forol. Pe byddai yn benderfyniad i ymestyn y grwyn ymhellach tuag at y môr yna fe fyddai angen sicrhau fod yna waith effaith amgylcheddol sylweddol yn cael ei gwblhau a bod y dyluniad newydd/arfaethedig yn cael ei fodelu er asesu unrhyw effaith cyn byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i gyflwyno cais am drwydded Forol. Pe byddai hyn yn benderfyniad at y dyfodol efallai byddai hefyd, ar yr un pryd, yn fuddiol ystyried, trafod, pwyso a mesur (cyn modelu efallai) unrhyw effaith byddai lleihau hyd y morglawdd sydd yn arwain ar hyd y sianel fordwyo yn ei gael ar geg yr harbwr.
- Roedd y gwasanaeth yn mawr obeithio byddai'r gwaith adfer Grwyn y Crud wedi gallu cychwyn cyn Gŵyl y Sulgwyn eleni. Wrth gomisiynu'r gwaith dylunio manwl mae wedi dod i'r amlwg bod angen cynnal Archwiliad Tir cyn byddai peiriannydd yn gallu cwblhau'r gwaith dylunio. Er bod yna strwythur ar y safle ers peth amser nid yw yn bosibl dylunio strwythur o'r newydd gydag uchder ychwanegol a cherrig pwysau uwch hyd fydd peiriannydd gyda gwybodaeth fanwl am ddefnydd y traeth sydd yn ymestyn lawr o'r grwyn presennol.

Mae'r gwasanaeth wedi gofyn bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn paratoi'r dogfennau priodol ar gyfer hysbysebu'r gwaith hwn fel gallwn geisio sicrhau bod gwaith adfer Grwyn y Crud wedi ei gwblhau cyn yr Hydref eleni. Mae yn debygol bydd efallai angen cyflwyno cais am drwydded i gynnal y gwaith Archwilio tir gan fod angen tyllu i ddyfnder ar ro'r blaendraeth sydd is law na Marc Dwr Uchel Cymedrig (MHW.)

- 2.1.3 Mae trefniant ar gychwyn ar gyfer y gwaith allweddol i garthu ceg yr harbwr unwaith yn rhagor eleni. Gan fod tymor Gŵyl Y Pasg yn gynnar iawn eleni penderfynwyd nid fyddai yn oichelgar i gychwyn ar y gwaith cyn Gŵyl Y Pasg oherwydd risg tywydd garw a gwyntoedd cryfion pellach yn ystod mis Mawrth. Rhagwelir bydd y gwaith carthu ceg yr harbwr yn cael ei gynnal yn ystod ganol mis Ebrill eleni.
- 2.1.4 Mae'r safle a ddefnyddi'r ar gyfer storio'r defnydd a garthwyd o geg yr harbwr bron a chyrraedd ei uchafswm. Rhagwelir bydd yn bosibl storio gwerth 1 ymgyrch carthu pellach ar y safle hwn. Ar ôl yr ymgyrch carthu nesaf bydd angen trefnu bod y defnydd yn cael ei gludo i ardal Carreg y Defaid fel y digwydd yn y gorffennol. Yn ddiweddar daethpwyd i'r amlwg na fod y tir ble waredwyd y tywod ger ceg yr harbwr ym mherchenogaeth y Cyngor.

Mae'r tir wedi ei gofrestru ym mherchenogaeth Dwr Cymru. Mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda Dŵr Cymru er ceisio cytundeb hir dymor gyda defnydd parhad o'r tir.

- 2.1.5 Fe fu i staff y gwasanaeth gynnal archwiliad o'r sianel yn ystod y llanw isel a ddigwyddodd ar y 1af Fawrth eleni. Roedd yn amlwg fod gwyntoedd cryfion y gaeaf eleni wedi cario defnydd tywod a gro sylweddol fewn i'r harbwr. Mae'r sianel fordwyo yn ardal ceg yr harbwr wedi culhau yn sylweddol ac mae'n bur debyg fyddai dau gwch ddim yn gallu mordwyo heibio ei gilydd yn y sianel ar lanw isel (hyn pe byddai dyfnder y cwch yn caniatáu iddynt fordwyo yn ddiogel yn y sianel ar lanw isel.)
- 2.1.6 Mae cymhariaeth adolygiadau hydrograffic ceg yr harbwr dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos fod cynnydd blynyddol yn y defnydd sydd yn cael ei gario fewn i'r rhan hon o'r harbwr. Mae'r defnydd sydd yn cael ei gario fewn i'r harbwr drwy brosesau naturiol a gan y gwynt a'r llanw yn uwch na'r defnydd sydd yn cael ei garthu o'r harbwr yn flynyddol. Golygai hyn na fod ymgyrchoedd carthu drwy ddefnyddio peiriannau o'r tir yn gallu ymdopi gyda maint y defnydd sydd yn cael ei waredu yng ngheg yr harbwr pob blwyddyn. Mae yn fwrriad gan y Gwasanaeth i gynnal trafodaethau buan gyda pheirianwyr yr Uned Ymgynghoriaeth Gwynedd er ceisio adnabod dulliau mwy effeithiol o garthu ceg yr harbwr.
- 2.1.7 Opsiwn i'w ystyried byddai defnyddio peiriant carthu sylweddol (torri a sugnedd) gan waredu'r tywod a gro'r ochr arall i'r morglawdd ar draeth Glandon. Cyn cychwyn ar unrhyw waith o'r fath byddai angen trafod unrhyw effaith amgylcheddol bosibl gyda'r awdurdodau perthnasol yn y man cyntaf.

2.2 **Mordwyo**

- 2.2.1 Rhagwelir bydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal ar gymhorthion mordwyo Pwllheli gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar y 13eg neu'r 14eg Awst 2018.
- 2.2.2 Yn y man nid oes unrhyw Rybudd i Forwyr mewn grym yn Harbwr Pwllheli er mae'n hanfodol tynnu sylw at ddiffyg lled y sianel yn ardal ceg yr harbwr. Mae dau Gymhorthydd Mordwyo yn sychu ar drai yn yr ardal hon. Rhagwelir bydd y sefyllfa yn gwella wedi cwblhau'r gwaith carthu ym mis Ebrill. Mae adroddiad PANAR yn cael ei gyflwyno gan y Gwasanaeth at sylw Tŷ'r Drindod yn chwarterol. Mae'r adroddiad yn adrodd ar sefyllfa holl Gymhorthydd Mordwyo dan reolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor. Mae Cymhorthydd Mordwyo Hafan y Môr yn parhau oddi ar ei safle. Fel yr Awdurdod Goleudai Lleol mae'r Cyngor wedi pwysleisio i'r perchennog bod y cymhorthydd yn cael ei leoli ar y safle cywir erbyn tymor yr haf eleni.
- 2.2.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Pe byddai yna unrhyw newid yn y sefyllfa gyfredol bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan y gwasanaeth yn y cyfarfod.
- 2.2.4 Fe fydd bwiau parth cyflymdra uchel ardal traeth Marian y de ac ardal traeth Abererch yn cael eu lleoli ar eu safle priodol cyn Gŵyl y Sulgwyn. Fe fydd bwiau yn cynghori morwyr o'r cyflymdra uchaf yn ardal ceg yr harbwr yn cael eu hail leoli cyn y 1af Fai eleni.

2.3 **Cynnal a chadw**

2.3.1 Mae rhestr o'r gwaith a fydd wedi ei gwblhau yn yr Hafan ac yn yr harbwr yn atodol. Bydd Rheolwr yr Harbwr yn ymhelaethu ar y rhaglen waith yn y cyfarfod pe bydd gofyn. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith. Mae rhai materion eisiau sylw penodol yn ystod 2018.

- Cynnal a Chadw 2 gysgodfa ar Gei Gogledd. Gan fod cyflwr 1 cysgodfa mewn cyflwr difrifol fe fydd rhaid ystyried dyfodol y gysgodfa.
- Mae craen symudol yr Hafan wedi dirywio tu hwnt i werth buddsoddi arian sylweddol i'w gynnal a chadw. Prynwyd y craen yn ail law oddeutu 15 mlynedd yn ôl. Gan fod gwasanaeth craen symudol ar gael gan gwmnïau yn lleol ym Mhwlheli bydd y Gwasanaeth yn ystyried gwerthu'r craen gan brynu gwasanaeth craen fel bod angen gan gwmnïau lleol at y dyfodol.
- Bydd yn anorfod cynnal gwaith ar yr holl lampau stryd sydd yn arwain ar hyd ffordd y marina. Fe fydd angen cynnal profion ar yr holl lampau gan bosibl bydd angen adnewyddu sawl lamp. Mae gwreiddiau coed yn amharu ar wyneb y palmant mewn sawl lleoliad ac fe fydd angen cynllunio gwaith ar gyfer ail wynebu rhan o'r palmant.
- Mae maes parcio Traeth Glandon yn cael defnydd trwm drwy gydol y flwyddyn. Yn y gorffennol roedd y gwasanaeth yn gallu ymdopi gyda chynnal a chadw'r safle. Oherwydd y cynnydd sylweddol yn y defnydd mae'r arwyneb yn dirywio yn gyflym. Er gwaetha ymdrechion y gwasanaeth i'w gynnal yn ddiweddar mae yn ymddangos fod angen gwaith pellach. Mae gwaith wedi ei drefnu ar gyfer y tymor byr ac fe fydd y gwasanaeth yn trafod cynlluniau hir dymor gyda swyddogion perthnasol maes o law.

2.4 **Materion Staff**

2.4.1 Mae trefniadau adolygol ynglŷn â strwythur staff harbwr Pwllheli wedi eu cwblhau. Yn dilyn llwyddiant yr ad drefniant sydd wedi ei dreialu yn ddiweddar mae'r trefniadau amgen nawr yn weithredol.

2.4.2 Fe fydd y Gwasanaeth yn parhau i ystyried opsiynau ac yn parhau i adolygu trefn goruchwyliaeth diogelwch nos yr Hafan. Mae goruchwyliaeth nos yr Hafan yn parhau dros gyfnod 12 awr (19.00 hyd at 07.00) 7 diwrnod yr wythnos drwy'r flwyddyn ond bydd angen adolygu ac asesu a yw'r trefniant hwn yn effeithiol.

2.4.3 Mae newidiadau wedi eu cyflwyno yn nhelerau rhai staff yr Hafan sydd wedi penderfynu trosglwyddo allan o warchodaeth TUPE i gytundeb cyflogaeth y Cyngor. Mae 3 aelod staff yr Hafan yn parhau dan warchodaeth telerau gwaith TUPE.

2.4.4 Golygai hyn bod newid yn y nifer oriau gwaith a weithiwyd gan y rhai staff a fydd wedi trosglwyddo i gytundeb y Cyngor. Yn dilyn y newidiadau yn y cytundebau mae'r gwasanaeth wedi adolygu oriau agor swyddfa'r Hafan er sicrhau na fod y newidiadau yn amharu ar barhad gwasanaeth cwsmeriaid harbwr Pwllheli. Gwelir yr oriau ble mae swyddfa'r Hafan ar agor isod. Tynnwn sylw na fod y swyddfa ar agor rhwng 07.00 a 08.00 a ddim ar agor rhwng 18.00 a 19.00.

2.4.5 Yn y man mae 1 swydd wag yn yr Hafan ac mae'r swydd wedi ei hysbysebu yn lleol. Bydd ceisiadau a dderbynnir yn cael eu hasesu yn fuan a rhagwelir bydd yn bosibl i'r Swyddog a benodir cychwyn ar ôl Gŵyl Y Pasg. Bydd hyn yn dod a nifer staff parhaol yr Hafan / harbwr yn 9 aelod staff sydd yn cynnwys 1 goruchwyliwr diogelwch nos.

**Oriau agor swyddfa
Hafan/Harbwr
Pwllheli 2018**

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul
Swyddfa Hafan ar agor	8.00 - 18.00	8.00 - 18.00	8.00 - 18.00	8.00 - 18.00	8.00 - 18.00	8.00 - 18.00	8.00 - 18.00
Diogelwch Nos Hafan	19.00 -	19.00 - 07.00	19.00 - 07.00	19.00 - 07.00	19.00 - 07.00	19.00 - 07.00	19.00 - 07.00

3. Materion Ariannol

3.1 Bydd adroddiad ariannol hyd at ddiwedd Chwefror 2018 yn cael ei ddsbarthu yn y cyfarfod.

3.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -


- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Buddsoddiad angorfeydd harbwr allanol
- Cynnal a chadw cwch ac ôl gerbyd y cwch gan bwrcasu cwch newydd (ail law) ar gyfer y gwasanaeth.
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.

3.3 **Ffioedd a Thaliadau 2018/19.** Mae taenlen ffioedd arfaethedig 2018 Harbwr Pwllheli a Hafan Pwllheli eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau'r Aelodau. Er yr adroddwyd y rhagwelwyd byddai chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.78% mae'r canran chwyddiant wedi ei adolygu yn dilyn nifer o ffactorau sydd yn cael effaith ar chwyddiant. Cadarnheir bydd y raddfa chwyddiant ar gyfer harbwr Pwllheli yn 2018/19 yn cynyddu i 2.53% gyda chwyddiant cyfartaledd harbyrau Gwynedd yn 2.9%. Golygai bydd targed incwm yr harbwr allanol yn cynyddu at £53,010 yn 2018/19.

3.4 Er yr adroddwyd y rhagwelwyd byddai chwyddiant yr Hafan ar gyfer 2018/19 yn 1.73% mae'r canran chwyddiant wedi ei adolygu yn dilyn nifer o ffactorau sydd yn cael effaith ar chwyddiant. Cadarnheir bydd y raddfa chwyddiant 2018/19 ar gyfer Hafan Pwllheli yn cynyddu i 2.50%. Golygai bydd targed incwm yr Hafan ar gyfer 2018/19 yn £1,270.280.

- 3.5 Gan fod y gwasanaeth eisoes wedi cyfathrebu gyda chwsmeriaid yr harbwr y bwriad yw awgrymu bod y ffioedd a thaliadau yn parhau i gynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn sgil y targedau herion a gan fydd diffyg bosibl yn yr incwm fe fydd angen sicrhau fod y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd incwm angen ac yn lleihau gwariant bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- 3.6 Mae cynnydd chwyddiant Morwrol a Pharciau Gwledig 2018/19 fel a ganlyn: -

	<u>Chwyddiant Gwreiddiol</u>	<u>Chwyddiant Adolygol</u>
• Traethau	- 3.10%	4.43%
• Hafan	- 1.73%	2.50%
• Pwllheli	- 1.78%	2.53%
• Harbyrau	- 1.78%	2.90%
• Doc Fictoria	- 1.45%	2.08%
• Parc Padarn	- 3.25%	3.73%
• Parc Glynllifon	- 3.00%	3.89%

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 1	


Math: **Gwiriad Iechyd – Cod Diogelwch
Morol Porthladdoedd**

Porthladd: **Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod
Harbwr ar gyfer Porthmadog,
Pwllheli, Abermaw ac Aberdyfi**

Diben: **Ymweliad Allanol**


Awdur:	Dyddiad	Llofnod
Forkanul Quader David Turner	19 a 20 Medi 2017	

Hanes y Fersiwn	Dyddiad	Sylwadau
Drafft Cyntaf	21 Medi 2017	

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 2	

GEIRFA

ALARP	Mor Isel ag sy'n Ymarferol Resymol
CHA	Awdurdod Harbwr Cymwys
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
PD	Person Dynodedig
HF	Harbwrfeistr
GTGP	Canllaw Arfer Dda
KPI	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
MAIB	Cangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol
MPX	Master/Pilot Exchange
PMSC	Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd
PEC	Tystysgrif Eithrio Llywio
MAIB	Cangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol
MSMS	System Rheoli Diogelwch Morol
SHA	Awdurdod Harbwr Cymwys
VTS	Gwasanaeth Traffig Cychod
LPS	Gwasanaethau Porthladd Lleol

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 3	

1. Cefndir

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod harbwr statudol â statws bwrdeistrefol ar gyfer y porthladdoedd a ganlyn – Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Defnyddir y porthladdoedd yn bennaf at ddibenion hamdden a physgota, ac maent wedi'u lleoli yn ardal arfordirol gogledd-orllewin Cymru, gerllaw Bae Ceredigion.

Cyn yr ymweliad anfonwyd *aide-memoire* at yr Harbwrfeistr gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn gofyn am sylwadau oedd yn cyfateb i'r PMSC ac i adran berthnasol System Rheoli Diogelwch y Porthladd. Diben hyn yw cynorthwyo'r MCA gyda'r "Gwiriad Iechyd" a darparu sylfaen ar gyfer archwiliad pellach yn ystod yr ymweliad. Er mai Cyngor Gwynedd sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb y deiliad dyletswydd, y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sy'n goruchwylio'r gweithgareddau gweithredol, ar y cyd â thîm o Harbwrfeistri.


2. Cyflwyniad

Cynhaliwyd "Gwiriad Iechyd" o System Rheoli Diogelwch Awdurdod Harbwr Gwynedd yr MCA a adolygwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC).

Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi, a defnyddiwyd swyddfa Harbwr Porthmadog fel y prif ganolfan ar gyfer yr ymweliad. Arweinyddion tîm yr MCA oedd Forkanul Quader a David Turner.

Darparodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleusterau ar gyfer y broses wirio yn swyddfa harbwr Porthmadog, gan gynnwys rhoi mynediad i'r holl ddogfennau angenrheidiol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymweliad, ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddatganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 4	


3. Sgôp

Diben y "Gwiriad Iechyd" yw asesu a yw'r porthladd, ar ddyddiau'r ymweliad, yn gweithredu'r PMSC yn effeithiol. Mae'r PMSC yn berthnasol i bob Awdurdod Harbwr yn y DU â chanddynt bwerau a dyletswyddau statudol. Bwriad yr ymweliad yw cynghori a chynorthwyo'r porthladd i weithredu'r Cod, ac i wella diogelwch y porthladd wrth wneud hynny.

Yr oedd y gwiriad iechyd hwn yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

1. Manylion y Porthladd	✓
2. Y Person Dynodedig	✓
3. Deiliaid Dyletswydd	✓
4. Dyletswyddau a Phwerau	✓
5. Ymgynghori a Lledaenu Gwybodaeth	✓
6. Asesu Risg	✓
7. System Rheoli Diogelwch	✓
8. Pwerau a Gorfodaeth	✓
9. Cynlluniau Llywio a Phasio	Amh. Dim ond Porthmadog
10. Cychod Gweithio, Cychod Tynnu a Gwasanaethau Morol	✓
11. Rhwymedigaethau Gwarchodaeth	✓
12. Cyfarwyddiadau	✓
13. Hyfforddiant	✓
14. Gwasanaethau Traffig Cychod	Amh.
15. Dogfennau a Gyhoeddwyd	✓
16. Gwiriad terfynol	✓

Ar ôl yr ymweliad, bydd tîm "Gwiriad Iechyd" yr MCA yn cynhyrchu adroddiad byr i grynhoi enghreifftiau o'r gwelliannau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod harbwr. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwelliannau a welwyd yn ystod yr ymweliad, ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddatganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 5	

4.

Trosolwg

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Harbwr Statudol (SHA) ar gyfer pedwar porthladd - Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Mae darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn berthnasol i bob un ohonynt. Mae prif ardal yr awdurdod arfordirol yn ymestyn o Abergwyngregyn i'r dwyrain o Fangor hyd at Ddoc Fictoria ar y Fenai yng Nghaernarfon, ac i Aberdyfi ym Mae Ceredigion. Rheolir pob harbwr o ddydd-i-ddydd gan yr Harbwrfeistr a benodwyd gan y Cyngor, a gweithredir pob porthladd yn dechnegol o dan bolisiau a rheolaeth unedol y Cyngor. Mae gan Harbwr Porthmadog statws Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA) ac mae'n darparu gwasanaeth llywio yn ôl yr angen, er na chafwyd cais am y gwasanaeth hwn ers rhai blynnydoedd. Porthmadog yw'r unig harbwr yng Nghyngor Gwynedd â'r statws hwn, ac mae'r statws CHA yn cael ei adolygu'n barhaus.


O dan Harbwr Gwynedd, uchafswm yr angorfeydd posib yn y porthladdoedd yw: Porthmadog - 238, Pwllheli – 490 (412 ohonynt yn Angorfeydd yn y Marina), Abermaw – 140, ac Aberdyfi - 120. Dyma yw niferoedd uchaf posib yr angorfeydd. Yn 2017 niferoedd y cychodd wedi'u hangori oedd: Porthmadog - 135, Pwllheli – 490 (306 ohonynt yn Angorfeydd yn y Marina a 60 ar angorfeydd eraill), Abermaw – 86, ac Aberdyfi - 78.

Ymweliad

Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi 2017. Dangosodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghyd â'r Uwch Swyddog Harbwr a'r Harbwrfeistr (Porthmadog) ymrwymiad clir at y PMSC, gan sicrhau'r tîm ymweld eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol tuag at weithredu darpariaethau'r PMSC.

Swyddogion Gwynedd oedd yn bresennol yn ystod y Gwiriad lechyd oedd: -

Mr. Barry Davies – Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
 Mr. Arthur Francis Jones – Uwch Swyddog Harbwr
 Malcolm Humphreys – Harbwrfeistr (Porthmadog)
 William Williams – Rheolwr Harbwr (Pwllheli - yn rhannol bresennol)
 William Stockford – Harbwrfeistr (Aberdyfi - yn rhannol bresennol)
 Capt. Mathew Forbes – Person Dynodedig (Harbwrfeistr Conwy)

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 6	

4.1 Canfyddiadau Harbwr Gwynedd

Gwelliannau

Adnabuwyd rhai gwelliannau penodol, ond ar y cyfan gwelwyd bod dull cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfennaeth, wedi'i ddefnyddio wrth lunio'r System Rheoli Diogelwch Morol (MSMS) a'r Cynllun Gweithredu Morol cysylltiedig. Fodd bynnag, canfyddodd y tîm Gwiriad lechyd bod rhai tasgau hanfodol gan gynnwys archwilio mewnol, archwilio allanol ac adnabyddiaeth gywir o'r Deiliad Dyletswydd dal heb eu cwblhau. Mae'n bwysig crybwyll hefyd i'r tîm Gwiriad lechyd ganfod fod y prosesau gweithredol yn drefnus.

Mae'r canfyddiadau a nodir isod yn gysylltiedig â'r sylwadau ar statws y Cynllun Gweithredol Morol (SMS). Bydd angen ail-ymweld â'r Cynllun Gweithredol Morol er mwyn unioni'r System Rheoli Diogelwch Morol gyda'r PMSC a'r GTGP.

Cytunodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, yr Uwch Swyddog Harbwr, yr Harbwrfeistri perthnasol a'r Person Dynodedig y byddai'n rhaid cynnal ymweliad gwiriad iechyd arall gan dîm Gwiriad lechyd yr MCA yn ystod y cyfnod 12 mis nesaf.


Adnabuwyd nifer o welliannau a fyddai'n gwella'r modd y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'r Cod. Y rhain yw:

Deiliad Dyletswydd

Ar hyn o bryd, y Deiliad Dyletswydd tybiedig yw Dirprwy Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned (DBEC). Y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sy'n goruchwylio gweithrediad y pedwar porthladd o dan y DBEC. Yn unol â'r PMSC, gall aelod o'r tîm rheoli neu'r Bwrdd fod yn Ddeiliad Dyletswydd gydag atebolrwydd cyhoeddus am y Cod PMSC.

Deallir mai'r DBEC yw'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG), ac nad yw'n aelod etholedig o'r Cyngor, ac felly nid yw'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Er bod aelodau'r cyngor ar y cyd (ac yn unigol) yn gallu ymrwymo i'r PMSC, dylid ystyried ffurfio pwyllgor craidd i ysgwyddo cyfrifoldeb y Deiliad Dyletswydd neu enwebu aelod o'r cyngor i weithredu fel y deiliad dyletswydd. Byddai modd i'r DBEC a benodir gynorthwyo'r Deiliad Dyletswydd.

GTGP: 2.2.19, 2.2.23, 2.2.31

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 7	

Person Dynodedig

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Harbwr wedi penodi Person Dynodedig cymwys. Nid yw'r penodiad hwn wedi'i gwblhau'n ffurfiol. Felly mae angen ffurfioli'r penodiad drwy anfon llythyr at y Person Dynodedig a benodwyd.

GTGP: 2.2.25

System Rheoli Diogelwch Morol (MSMS)

Mae'r Awdurdod Harbwr wedi dewis defnyddio'r Cynllun Gweithredu Morol fel eu MSMS. Rhaid adolygu'r ddogfen i adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau cywir y deiliad dyletswydd. Yn ogystal mae angen ffurfioli'r Cynllun Gweithredu Cyfredol yn MSMS. Mae modd i'r Awdurdod Harbwr ddefnyddio MSMS cyffredin, gan alluogi i'r porthladdoedd unigol ddatblygu system yn seiliedig ar risg i ymdrin â risgiau gweithredol pob porthladd.

GTGP: 4.1.3, 5.1.5

Archwiliadau Mewnol

Ni chanfuwyd cofnod o unrhyw archwiliadau mewnol. Dylid cynnal archwiliadau mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn.

GTGP: 5.1.1

Archwiliad Person Dynodedig

Nid oedd unrhyw gofnodion o archwiliadau a gynhaliwyd gan y PD yn unol ag adran 2.2.30 GTGP. Nid oedd tystiolaeth o gyflwyno unrhyw adroddiad i'r Deiliad Dyletswydd nac i'r corff llywodraethu. Dylai'r PD gyflwyno adroddiad monitro i'r Deiliad Dyletswydd ac i'r bwrdd rheoli.

GTGP: 2.2.30

Archwilio Allanol


Ni chanfuwyd cofnod o unrhyw archwiliad allanol. Dylid cynnal archwiliadau allanol yn gyson.

GTGP: 5.1.1

Cynllun Diogelwch

Dylai Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG) ystyried cyhoeddi Cynllun Diogelwch bob tair blynedd yn unol â'r PMSC ble dengys sut y bydd y bwriedir cwrdd â'r safonau.

GTGP: 2.2

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 8	

Gwarchodaeth: GLA/Trinity House

Dylai AHG gael llythyr gan GLA/Trinity House ar ôl cwblhau'r holl waith gwarchodaeth sydd ar y gweill. GTGP: 7.5.5

Cydymffurfiaeth â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC)

Pan fyddant yn fodlon eu bod yn cydymffurfio â'r PMSC, dylai AHG anfon llythyr at yr MCA. Ni wnaed hyn ers 2013.

PMSC: 2.31 GTGP: 2.12

Statws Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA)

Dylai AHG adolygu ei statws CHA i weld a oes angen statws CHA gyda chydymffurfiaeth gyflawn. GTGP: 9.2

Iechyd a Diogelwch

AHG i adolygu ei statws archwilio I&D cyfredol i gynnwys elfennau morol ynghyd â'r gweithgareddau cysylltiedig ar y pier. GTGP: 6.6

Matrics Hyfforddi


Cytunwyd y byddai creu matrics hyfforddiant i staff a chynllun hyfforddiant cysylltiedig yn fuddiol, a bod angen cwblhau hyn.

GTGP: 12.2.1

Llaid yn Harbwr Pwllheli

Gwelwyd bod lefel y llaid yn y sianel sy'n arwain i'r harbwr yn parhau i gynyddu. Mae hyn wedi lleihau lled y dŵr sydd ar gael, yn yr ardal bwysicaf sy'n arwain i mewn i'r harbwr, yn sylweddol. Felly, dylid mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rhwystro carthu digonol.

GTGP: 7.4.2

 <p>Maritime & Coastguard Agency</p>	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 9	

ARFERION GORAU

Ymgynghori

Yr oedd cynnwys sector pysgota masnachol Aberdyfi yng nghyfarfodydd pwyllgor ymgynghorol yr harbwr yn gam cadarnhaol, a dylid archwilio ymhellach a oes modd cael PFDs Mullion wedi'u hariannu gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop.

Cyfleusterau Morol

Yr oedd y cyfleusterau ym Mhorthmadog yn gynhwysfawr, ac wedi'u hategu gan rhestrau gwirio a gweithdrefnau wedi'u strwythuro'n dda. Un elfen a nodwyd yn arbennig oedd y pwysau angori o goncrit oedd wedi'u gosod mewn teiars fel bod modd eu rholio i'w lle.

Asesiad risg


Gwelwyd fod gan bob porthladd asesiadau risg wedi'u diweddarau a'u strwythuro'n dda.

5. Casgliad

Yr oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn amlwg wedi gwneud ymdrech fawr i ddatblygu'r MSMS newydd a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Ymddengys bod y ddogfen yn adlewyrchu arferion cyfredol yn fras.

Yn awr, y flaenoriaeth yw dechrau ar adolygiad o'r System Rheoli Diogelwch cyfredol a'r Cynllun Gweithredol i weithredu a rheoli'r gweithgareddau o dan yr SMS yn ffurfiol. Mae hyn yn hanfodol wrth nesáu at gydymffurfio â'r PMSC gan nad yw'n ymddangos bod egwyddorion yr SMS yn cael eu dilyn ar hyn o bryd.

Felly, bwriad yr MCA yw cynnal gwiriad iechyd arall o fewn 12 mis i gadarnhau bod yr SMS a'r gweithdrefnau cysylltiedig wedi'u rhoi ar waith a'u bod yn rheoleiddio gweithgareddau'r harbwr yn effeithiol. Byddai hyn yn cynorthwyo i roi sicrwydd bod yr harbwr yn cydymffurfio â'r PMSC. Felly, dylai pwyllgor craidd yn cynnwys, fel awgrymwyd, y Deiliad Dyletswydd ac Aelodau o'r Cyngor, fod yn barod i gydnabod eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y PMSC a chynnig cefnogaeth ac adnoddau i uwch staff gwblhau'r gwaith da sy'n mynd rhagddo.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 10	

Dylai Cyngor Gwynedd, fel y Deiliad Dyletswydd, hefyd gydnabod nad yw'r Awdurdod Harbwr yn cydymffurfio'n llwyr ar hyn o bryd, ac felly mae Aelodau'r Cyngor ar y cyd yn agored iawn i atebolrwydd a allai godi o achosion o esgeulustod yn yr harbwr.

6. Sylwadau yr Awdurdod Harbwr

Yr oedd holl swyddogion Cyngor Gwynedd fu'n rhan o'r gwaith a wnaed gan y tîm Gwiriad lechyd ar ran yr MCA, yn gwerthfawrogi'r dull cadarnhaol ac adeiladol a ddilynwyd wrth gynnal y gwiriad lechyd. Gwerthfawrogwyd dull gweithredu proffesiynol, gwybodus a chwrtais y tîm Gwiriad lechyd.


Mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig wedi dangos eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion y PMSC ers ei gyflwyno, ac wedi cymryd camau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod.

Bydd y sylwadau cadarnhaol a'r gwelliannau a awgrymwyd gan y Tîm Gwiriad lechyd yn derbyn sylw a bydd camau priodol yn cael eu cymryd cyn yr ymweliad sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref/Tachwedd 2018.

Mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig yn cydnabod bod potensial i Aelodau Cyngor Gwynedd fod yn agored i atebolrwydd a gyfyd yn sgil achosion posib, ac ystyrir sefydlu Deiliad Dyletswydd wedi'i ddiffinio os caniateir gweithdrefnau o'r fath.

Fodd bynnag, pwysleisir bod holl staff yr harbyrau wedi derbyn hyfforddiant priodol ac wedi cymhwyso mewn prosesau lechyd a Diogelwch. Mae proses eisoes yn bodoli i adnabod yr holl risgiau posib o fewn yr harbyrau sydd o dan awdurdod y gwasanaeth. Eisoes mae gweithredu wedi digwydd, a bydd yn parhau i ddigwydd, yn unol ag egwyddor ALARP, er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau a adnabyddir yn parhau i fod mor isel â phosib er mwyn diddymu peryglon o'r fath.

Drwy broses ymgynghorol, mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lleol cyfrifol, yn sicrhau bod yr harbyrau o dan ei awdurdod yn derbyn lefel uchel o gefnogaeth a gwasanaethau gweinyddol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod Pwyllgorau Ymgynghorol yr Harbwr ar gyfer pob harbwr unigol yn gweithredu'n unol â disgwyliadau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

 <p>Maritime & Coastguard Agency</p>	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 11	

Cynhelir cyfarfodydd ymgynghorol yr harbwr ddwywaith y flwyddyn yn Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Maent yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth. Mae'r aelodau yn gwbl gyfarwydd â chynnwys Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd a dyma un o brif eitemau'r rhaglen ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn derbyn adborth ar yr holl faterion sy'n ymwneud â gweithrediadau'r harbwr o dan gylch gorchwyl y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Drwy gael amrediad eang o gynrychiolwyr lleol wedi'u hethol ar bob Pwyllgor Ymgynghorol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo arbenigedd eang ar draws y diwydiant morol, ynghyd â'r cymunedau hamdden morol a physgota.

Yn y sylw a wnaed gan y tîm Gwiriad Iechyd, nodwyd mai Dirprwy Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned yw'r Deiliad Dyletswydd tybiedig, gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn goruchwyllo gweithrediad y pedwar porthladd o dan awdurdod Cyngor Gwynedd.

Er mai'r DBEC yw'r uwch reolwr llinell ar gyfer y gwasanaeth, Bwrdd y Cyngor (sef Cabinet y Cyngor yn flaenorol) oedd wedi'i nodi yn y gorffennol fel y Deiliad Dyletswydd ar y cyd ar gyfer y PMSC yng Ngwynedd.

DBEC yw'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG), nid yw'n aelod etholedig o'r Cyngor ac felly, fel y nodwyd gan y tîm Gwiriad Iechyd, mae'n bosib nad yw'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Bydd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn sicrhau y ceir eglurder ar fater y Deiliad Dyletswydd, ac y bydd yn cael ei gadarnhau fel mater o frys.

Rydym yn gytûn yn ein casgliad y bu'r Gwiriad Iechyd o fudd mawr i'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig, er y pryderon blaenorol, ac mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at gyfathrebu'n rheolaidd gyda'r tîm Gwiriad Iechyd ar faterion sy'n ymwneud â'r PMSC yng Ngwynedd, ac yn edrych ymlaen at yr adolygiad Gwiriad Iechyd ym mis Hydref/Tachwedd 2018. Bryd hynny rydym yn rhagweld y bydd y materion a godwyd gan y tîm gwiriad iechyd wedi derbyn sylw.

Rhestr o waith cynnal a chadw ac uwchraddio gan staff yn ystod gaeaf

Some of the general repairs/maintenance undertaken by staff during the winter

Harbwr/Harbour

1. “Powerwash” a glanhau pontŵn y pysgotwyr /Power wash and clean the Fisherman’s pontoon
2. Cynnal arolwg o’r gwaith coed y pontŵn yma a newid a thrwsio fel bod angen /Inspect the decking on this pontoon and replace as necessary
3. Adolygu a phaentio stanciau mordwyo fel bod angen / Inspect and paint the Navigational piles as required
4. Tynnu allan golchi a phaentio'r bwi tramwyo / Remove/clean/inspect and paint the Safe Water Buoy
5. Tynnu a golchi'r Bwiau Port Hand ac wedyn yn ei ail osod / Remove and clean the Port hand Navigational Buoys and put back
6. Gosod mesur dyfnder dwr newydd / Fit new harbour tide depth gauge
7. Gwasanaeth i peils yr Harbwr - contractwr i osod cylch angorfa newydd / Service Harbour piles - contractor to fit new mooring rings

Hafan

1. Tacluso tir o gwmpas Plas Heli a hen Clwb Hwyllo Pwllheli / Tidy the area around Plas Heli and the Old Sailing Club
2. Torri coed wrth yr Hen Clwb Hwyllo / Cut the trees down by the old Sailing Club
3. Trwsio giat bont i pontwns yr Hafan / Repair the bridge gate to the Hafan pontoons
4. Paentio pont i pontwns yr Hafan / Paint the bridge to the Hafan pontoons
5. “Powerwash” i holl bontwns yr Hafan / Powerwash all the pontoon decking in the Hafan
6. Cynnal arolwg o waith coed y pontwns a newid a thrwsio fel bod angen / Inspect the timber decking of the pontoons and renew and repair as necessary
7. Cynnal arolwg o fframwaith y pontwns / Inspect the pontoon framework
8. Torri coed o gwmpas safle maes parcio'r Hafan / Cut trees and bushes around the Hafan car parks
9. Tirlunio o gwmpas ardal giât Gogledd compownd cychod yr Hafan / Landscape the border around the gate to the North boat storage compound
10. Paentio'r gwaith coed o gwmpas y compownd ysbwriel / Paint the woodwork around the rubbish compounds
11. Gosod rhaff newydd ar beiriant codi cychod yr Hafan / Fit new wire ropes to the Travel Hoist
12. Gosod golau newydd ar bont mynediad i'r pontwns / Renew lighting on main access bridge
13. Ysgol diogelwch - tynnu/glanhau ac ail osod / pontoon safety ladders – unbolt/inspect and replace
14. “Powerwash” llithrfa'r Hafan / Powerwash to the Hafan slipway
15. Ar lanw uchel angen glanhau capiau gwyn y peils / High water springs clean white pile caps on pontoons
16. Chwyn laddwr o gwmpas adeilad yr Hafan / Weed kill around the Hafan building
17. Gosod drws awtomatig i dderbynfa'r Hafan / Fit new automatic door to the Hafan reception
18. Clymu'r camera CCTV yr Harbwr allanol i gamera CCTV yr Hafan / Connect the Outer Harbour CCTV system to the Hafan CCTV
19. Gosod caban newydd gweithdy ar doc yr Hafan / Locate and fit a new container to be used as a workshop on the Hafan dock
20. Gosod peiriant tywydd newydd / Fit new weather station
21. Symud bocs “oil boom” i ben y bont tanwydd / Move the “oil boom equipment” to the area at the top of the fuel quay bridge.

Cymru / Wales	Nifer o Angorfeydd/No of Berths	Cost Medr-2016	Uchafswm/MAX LOA	Cost Medr-2018
	Cynnwys TAW Inc VAT			
Deganwy Quays	170	£430.46	20	Dim ar gael/Not published
Conwy Marina	450	£399.26	23.3	£430.00
Hafan Pwllheli	420	£365.71	25	£380.48
Neyland Yacht Haven	420	£321.25	20	£340.00
Holyhead Marina	200	£318.00	20	
Aberystwyth Marina	101	£310.27	20	Dim ar gael/Not published
Penarth Quays Marina	350	£301.76	25	£325.00
Port Dinorwic Marina	200	£300.00	30	Dim ar gael/Not published
Cardiff Marina	350	£250.00	20	Dim ar gael/Not published
Milford Marina	300	£246.00	80	£254.00
Doc Fictoria	46	£234.23	14	£239.00
Swansea Marina	400	£206.43	20	£270.76 (2017)



ATODIAD 4 / APPENDIX 4

Angorfeydd Pontwn Yr Hafan / Berths at the Hafan	2015 (01/04/15)	2016 (20/03/16)	2017 (21/03/17)	2018 (07/03/18)
Nifer o angorfeydd ar gael yn yr Hafan <i>Number of berths available in the Hafan</i>	409	409	409	409
Nifer wedi derbyn <i>Number that have accepted</i>	293	240	257	200
Nifer o angorfeydd sydd yn wag <i>Number of berths not allocated</i>	116	169	152	209
Nifer ar y rhestr 'Dangos Diddordeb' <i>Number on the 'Expression of Interest' list</i>	76	76	74	0


Tud. 29

Angorfeydd yr Harbwr Allanol / Berths in the Outer Harbour	2015 (01/04/15)	2016 (20/03/16)	2017 (21/03/17)	2018 (07/03/18)
Nifer o angorfeydd ar gael yn yr Harbwr <i>Number of berths available in the Harbour</i>	114	114	81	81
Nifer wedi derbyn <i>Number that have accepted</i>	91	75	50	26
Nifer o angorfeydd sydd yn wag <i>Number of berths not allocated</i>	23	39	31	60
Nifer ar y rhestr 'Dangos Diddordeb' <i>Number on the 'Expression of Interest' list</i>	0	0	0	0

Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Mawrth 2018
Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to March 2018




Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year







Hyd at Mawrth 2018 Up to March 2018

Cyfanswm medr cychod ymwelwyr - Total mts visiting vessels



Hyd at Mawrth 2018 Up to March 2018






Tud. 33

Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1af Ebrill i 31ain o Fawrth
Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March


	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Wedi gwerthu cwch/sold boat	12	15	12	20	7	13	9	9	11
Ardal newydd/New Cruising Ground	4	10	12	26	8	7	5	8	3
Parcio a lansio/Park and Launch	0	6	2	0	3	4	1	2	0
Dim rheswm/No reason given	30	28	24	17	16	14	2	13	8
Rhu ddrud/Too expensive	3	6	2	3	1	1	3	0	0
Methdalwr/Bankrupt	6	1	0	2	2	0	1	0	0
Iechyd/Ill health	6	3	8	4	8	2	4	9	3
Blwyddyn allan/Year out	13	10	5	3	5	2	2	0	0
Carthu/Dredging	2	2	8	4	0	0	1	0	0
Cyfanswm/Total	76	81	73	79	50	43	28	41	25

Hyd at Mawrth 2018
 Up to March 2018






Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Mawrth 2018
Annual Statistics for *Pwllheli Harbour* - to March 2018

Nifer o Gychod Blynyddol - Number of annual Resident vessels



Cyfanswm medr cychod blynyddol - Total metres Resident boats





Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1af Ebrill i 31ain o Fawrth
Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March

	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Wedi gwerthu cwch/sold boat	3	4	0	2	0			
Ardal newydd/New Cruising Ground	0	0	17	1	0			
Parcio a lansio/Park and Launch	0	0	0	0	0			
Dim rheswm/No reason given	0	0	12	2	0			
Rhu ddrud/Too expensive	0	0	0	0	0			
Methdalwr/Bankrupt	0	0	0	0	0			
Iechyd/Ill health	0	0	0	1	0			
Blwyddyn allan/Year out	0	0	0	0	1			
Carthu/Dredging	0	0	0	0	0			
Cyfanswm/Total	3	4	29	6	1			

Hyd at Mawrth 2018
 Up to March 2018



Eitem 6

Cyfarfod	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Dyddiad	20fed o Fawrth 2018
Teitl	Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli
Awdur	Llyr B Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I gynnig diweddariad ar fwriad yr Adran i adolygu model rheoli ar gyfer yr Harbwr a'r Hafan ac i geisio barn y Pwyllgor ar y meini prawf i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthuso'r modelau posib.

2. Cefndir

2.1 Ers i reolaeth Hafan Pwllheli gael ei drosglwyddo i gyfrifoldeb uniongyrchol Cyngor Gwynedd nol ym mis Ebrill 2008 mae bwriad wedi bod i ystyried modelau eraill i'r tymor hir.

2.2 Dros yr un cyfnod mae'r gwasanaeth wedi wynebu sawl her gan gynnwys :

- Dirwasgiad economaidd wedi effeithio ar y sector forwrol (a'r galw am angorfeydd)
- Pryderon am lefelau siltio'r sianel yn effeithio ar fynediad i'r harbwr
- Diffyg capasiti mewn lleoliadau addas ar gyfer gwaredu gwaddodion o'r harbwr (sy'n cyfyngu opsiynau carthu)
- Cynnydd mewn costau megis TAW a thanwydd sydd yn effeithio'r sector forwrol
- Cyflwr bregus y sector forwrol wedi arwain at gystadleuaeth gynyddol ymysg marinas am gwsmeriaid

2.3 Er bod y gwasanaeth yn parhau i gynhyrchu elw blynyddol, mae'r cyfuniad uchod o ffactorau yn golygu fod nifer o gwsmeriaid blynyddol wedi lleihau dros y ddegawd ddiwethaf.

2.4 Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei adolygu'n reolaidd wrth gwrs ac ym mis Chwefror 2017 bu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gefnogi bwriad yr adran i adolygu trefniadau rheolaethol.

2.5 Bellach mae'r Adran wedi sicrhau adnodd prosiect i fedru symud y gwaith yma yn ei flaen a'r nod presennol yw i ddatblygu achos fusnes amlinellol yn ystod y flwyddyn a thrwy hynny penderfynu ar gyfeiriad pendant i'r dyfodol.

2.6 Bydd datblygu'r achosion busnes yn broses iteraidd a bydd y gwaith yn dilyn fframwaith methodoleg 'Model Pump Achos' y Llywodraeth. Bydd y drefn arfaethedig yn caniatáu mewnbwn ac arweiniad buan prif fudd-ddeiliad y prosiect i lywio cyfeiriad y gwaith a sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i ystod o fodelau posib a bod yr ystyriaeth hynny'n gymesur i'w tebygolrwydd o fod yn addas. Bydd yn ei dro yn sicrhau

ein bod yn canolbwyntio adnoddau ar y modelau sydd fwyaf tebygol o fodloni'r amcanion.

2.7 Bydd 3 Cam penodol i'r gwaith, sef

- i) Cam 1 : Sefydlu os oes achos i newid
- ii) Cam 2 : Datblygu achos busnes amlinellol
- iii) Cam 3 : Gweithredu

2.8 Yn fras, pwrpas y cam cyntaf yw asesu os oes achos i newid ac os oes cyfiawnhad dros fuddsoddi rhagor o adnoddau ac amser i wneud gwaith pellach ar restr fer o opsiynau. Yn ddarostyngedig i Gam 1 mae'r ail gam yn edrych ar y rhestr fer mewn mwy o fanylder, gan asesu eu hyfywdra ar ffurf achos fusnes. Ar ddiwedd Cam 2 bydd penderfyniad i weithredu model newydd neu beidio.

3. Cam 1 : Ystyried Achos Dros Newid

3.1 Yn ei hanfod fe geisir ateb 2 gwestiwn sylfaenol yma:

- Oes achos i newid o fod yn rheoli'r Hafan a'r Harbwr ein hunain?
- Os oes, pa fodel neu fodelau ddylen ni ystyried ymhellach?

3.2 Er mwyn ateb y cwestiynau rheini mae angen sefydlu beth sy'n bwysig o ran yr amcanion rydym yn ceisio cyflawni o'r Hafan a'r Harbwr. Bydd yr amcanion rheini yn ymddwyn fel meini prawf i werthuso'r model presennol yn erbyn modelau amgen.

3.3 Y bwriad ydi ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid i gael mewnbwn ar yr amcanion yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hynny'n hysbysu'r meini prawf terfynol ac yn sail i fynd ati i werthuso'r modelau.

4. Meini Prawf Drafft

4.1 Fel man cychwyn i gynnu trafodaeth mae'r Bwrdd Prosiect yn cynnig y meini prawf canlynol (noder nad ydynt mewn unrhyw drefn blaenoriaeth:

- a) Yn atgyfnerthu'r economi drwy fod yn fasnachol hyfyw a thrwy hynny cefnogi cwmnïau morwrol a swyddi lleol
- b) Yn sbardun economaidd drwy ddenu ac uchafu defnydd o'r harbwr
- c) Y gallu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg

ch) Cynnig budd ariannol i'r Cyngor

d) Y gallu i ddenu buddsoddiad

dd) Yn fodel busnes a chynaliadwy

e) Yn fodel posib i'w weithredu

4.2 Meini prawf drafft yw'r rhain, ac mae'r Cyngor yn awyddus i dderbyn sylwadau arnynt.

5. Argymhelliad

5.1 Croesawir sylwadau a thrafodaeth gyda'r Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol ar y meini prawf drafft uchod.